**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Papur ymchwil

# Gwerth Ychwanegol Crynswth Lleol a Rhanbarthol

Rhagfyr 2012

Y Gwasanaeth Ymchwil

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Mae'r Gwasanaeth Ymchwil yn darparu ymchwil a gwybodaeth arbenigol a ddiduedd er mwyn cefnogi Aelodau a phwyllgorau'r Cynulliad i gyflawni swyddogaethau craffu, deddfwriaethol a chynrychioliadol Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Mae briffiau gan Wasanaeth Ymchwil yn cael eu hysgrifennu ar gyfer Aelodau'r Cynulliad a'u staff. Mae'r awduron ar gael i drafod y papurau gydag Aelodau a'u staff ond nid yw'n bosibl rhoi cyngor i'r cyhoedd. Croesawn sylwadau ar ein briffiau; os oes gennych unrhyw sylwadau gallwch eu hanfon i'r cyfeiriad post neu e-bost isod.

Gellir cael gafael ar fersiwn electronig o'r papur ar safle'r Cynulliad Cenedlaethol yn: www.cynulliadcymru.org/research

Mae copïau printiedig hefyd ar gael:

Y Gwasanaeth Ymchwil
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

E-bost: Research.Service@wales.gov.uk
Twitter: @YmchwilCCC

© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2013
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Rhif ymholiad: 12/3199
Rhif dogfen:12/057

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Papur ymchwil

# Gwerth Ychwanegol Crynswth Lleol a Rhanbarthol

Rhagfyr 2012

Ben Stokes

Mae'r papur hwn yn rhoi gwybodaeth am y data Gwerth Ychwanegol Crynswth (GYC) lleol a rhanbarthol a gyhoeddwyd gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS) ar 12 Rhagfyr 2012.

Cynulliad
Cenedlaethol
Cymru
National
Assembly for
Wales

Y Gwasanaeth Ymchwil

## Crynodeb

Mae'r papur hwn yn rhoi gwybodaeth am y data Gwerth Ychwanegol Crynswth (GYC) lleol a rhanbarthol a gyhoeddwyd gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS) ar 12 Rhagfyr 2012. Mae'n cynnwys ffigurau GYC 2011 Cymru ynghyd â ffigurau GYC 2010 a 2011 ar gyfer Gorllewin Cymru, y Cymoedd a Dwyrain Cymru.[1] Mae'r holl ffigurau GYC yn y papur hwn wedi eu mesur ar sail y gweithle. Mae GYC rhanbarthol yn fesur ar sail incwm o gynnyrch economaidd ardal, gan gynnwys, yn bennaf, cyflogau ac elw a enillwyd o ganlyniad i gynhyrchu.

Mae'r ffigurau diweddaraf yn dangos:

- mai cyfanswm y prif GYC yng Nghymru yn 2011 oedd £47.3 biliwn, sef cynnydd o 2.2 y cant o gymharu â 2010. Bu cynnydd o 2.4 y cant yng nghyfanswm GYC y Deyrnas Unedig yn ystod yr un cyfnod.[2] Mae cyfran Cymru o gyfanswm GYC y DU wedi aros yn gyson ar 3.5 y cant yn ystod y pedair blynedd diwethaf;
- mai GYC y pen yng Nghymru yn 2011 oedd £15,696, sef 75.2 y cant o gyfartaledd y DU. Y GYC y pen yng Nghymru yn 2011 oedd yr isaf o'r holl wledydd datganoledig a rhanbarthau Lloegr, a dyma fu'r GYC isaf drwy gydol y cyfnod rhwng 1997 a 2011;
- mai yn 2011 yn Ne Ddwyrain Lloegr yr oedd y cynnydd mwyaf mewn GYC y pen, sef 2.2 y cant, gyda Gogledd Iwerddon yn ail, sef 2.0 y cant a Chymru'n drydydd, sef 1.9 y cant. Roedd y cynnydd mewn GYC y pen ar gyfer y DU gyfan yn 2011 yn 1.4 y cant.
- yn 2011, Gorllewin Cymru a'r Cymoedd a oedd â'r ffigur GYC y pen isaf (£13,573) o blith holl ranbarthau enwau unedau tiriogaethol at ddibenion ystadegaeth (NUTS) 2 y DU. Mae'r ffigur hwn yn cyfateb i 65.0 y cant o gyfartaledd y DU, sef £20,873. Roedd gan Ddwyrain Cymru GYC y pen o £19,309 yn 2011 (92.5 y cant o gyfartaledd y DU);
- bod y lefelau isaf o GYC y pen yng Nghymru yng Nghymoedd Gwent, sef 55.7 y cant, ac yn Ynys Môn, sef 60.5 y cant o gyfartaledd y DU. Roedd yr ardaloedd hyn yn cyfrif am ddau o'r pum rhanbarth NUTS 3 ledled y DU â'r GYC y pen isaf o gymharu â chyfartaledd y DU. Cymoedd Gwent a oedd â'r GYC y pen isaf ond un yn y DU yn 2011.

---

[1] Data dros dro yw data 2011.

[2] Mae holl ddata GYC y pen y DU a ddefnyddir yn y papur hwn yn eithrio'r hyn a elwir yn elfen 'y tu allan i'r rhanbarthau': cyfraniadau alltraeth i GYC y DU na ellir eu priodoli i unrhyw ranbarth. Mae rhagor o wybodaeth yn yr atodiad technegol.

# Cynnwys

1. Gwerth Ychwanegol Crynswth (GYC) Rhanbarthol .... 1
2. Cymharu GYC - Y mesur canolrifol .... 3
3. Cymharu'r rhanbarthau .... 4
4. Cymharu Cymru â'r DU .... 6
5. GYC lleol ac is-ranbarthol .... 7
6. Atodiad Technegol .... 13

# Gwerth Ychwanegol Crynswth Lleol a Rhanbarthol

## 1. Gwerth Ychwanegol Crynswth (GYC) Rhanbarthol[3]

**Tabl 1.1: GYC (a), Cymru a'r DU, rhwng 1997 a 2011[4]**

| Blwyddyn | Cymru (£ y pen) | DU (£ y pen) (b) | GYC y pen yng Nghymru fel canran o GYC y DU |
|---|---|---|---|
| 1997 | 9,809 | 12,557 | 78.1 |
| 1998 | 10,254 | 13,243 | 77.4 |
| 1999 | 10,630 | 13,816 | 76.9 |
| 2000 | 10,967 | 14,322 | 76.6 |
| 2001 | 11,448 | 15,000 | 76.3 |
| 2002 | 11,987 | 15,707 | 76.3 |
| 2003 | 12,680 | 16,685 | 76.0 |
| 2004 | 13,269 | 17,525 | 75.7 |
| 2005 | 13,805 | 18,306 | 75.4 |
| 2006 | 14,454 | 19,184 | 75.3 |
| 2007 | 15,097 | 20,190 | 74.8 |
| 2008 | 15,179 | 20,495 | 74.1 |
| 2009 | 14,794 | 20,048 | 73.8 |
| 2010 | 15,407 | 20,579 | 74.9 |
| 2011 (c) | 15,696 | 20,873 | 75.2 |

(a) Mae'r ffigurau GYC rhanbarthol hyn wedi eu cyfrifo gan ddefnyddio cyfartaledd sy'n newid dros bum mlynedd ac maent yn seiliedig ar y gweithle.

(b) Nid yw'r ffigurau'n cynnwys GYC ar gyfer yr elfen 'y tu allan i'r rhanbarthau' sy'n cynnwys digolledu gweithwyr a gwarged gweithredu crynswth sy'n ymwneud ag echdynnu nwy ac olew alltraeth, llysgenadaethau'r DU dramor a'r lluoedd arfog dramor.

(c) Ffigurau dros dro.

Ffynhonnell: Y Swyddfa Ystadegau Gwladol

---

[3] Mae amcangyfrifon GYC rhanbarthol (NUTS 1) 2011 wedi eu cyhoeddi ynghyd â **diwygiadau ar gyfer y cyfnod rhwng 1997 a 2010, sy'n diweddaru'r** rhai a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2011. Mae amcangyfrifon 2010 a 2011 (NUTS 2 a NUTS 3), sy'n cynnwys mwy o fanylder o ran daearyddiaeth, wedi eu cyhoeddi am y tro cyntaf ynghyd â **diwygiadau ar gyfer y cyfnod rhwng 1997 a 2009**, sy'n diweddaru'r rhai a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2011.

[4] Gan eithrio GYC y tu allan i'r ranbarthau. Nid yw'r holl ystadegau ar gyfer GYC wedi eu haddasu yn unol â chwyddiant. Mae'r ffigurau GYC ar gyfer NUTS 1 (Cymru) yn y papur hwn yn seiliedig ar y gweithle, er bod y ffigurau sy'n seiliedig ar drigolion yr un fath. Mae'r ffigurau ar gyfer rhanbarthau NUTS 2 a NUTS 3 yn seiliedig ar y gweithle hefyd. **Nodir pwyntiau i'w hystyried wrth ddehongli'r papur hwn yn yr Atodiad Technegol**.

Mae'r amcangyfrifon GYC diweddaraf sy'n seiliedig ar y gweithle a gyhoeddwyd gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS) yn dangos: [5]

- mai cyfanswm y prif GYC yng Nghymru yn 2011 oedd £47.3 biliwn, sef cynnydd o 2.2 y cant o gymharu â 2010. Cafwyd cynnydd o 2.4 y cant yng nghyfanswm GYC y Deyrnas Unedig yn ystod yr un cyfnod; [6] 
- bod cyfran Cymru o gyfanswm GYC y DU wedi aros yn gyson ar 3.5 y cant yn ystod y pedair blynedd diwethaf;
- mai'r GYC y pen yng Nghymru yn 2011 oedd £15,696, sef 75.2 y cant o gyfartaledd y DU;
- mai'r GYC y pen yng Nghymru yn 2011 oedd yr isaf o blith yr holl wledydd datganoledig a rhanbarthau Lloegr, a dyma fu'r GYC isaf drwy gydol y cyfnod rhwng 1997 a 2011;
- mai yn Ne Ddwyrain Lloegr yr oedd y cynnydd mwyaf mewn GYC y pen yn 2011, sef 2.2 y cant, gyda Gogledd Iwerddon yn ail, sef 2.0 y cant a Chymru'n drydydd, sef 1.9 y cant. Roedd y cynnydd mewn GYC y pen ar gyfer y DU gyfan yn 2011 yn 1.4 y cant;
- mai dim ond ddwywaith yn ystod y cyfnod rhwng 1997 a 2011 y mae GYC y pen yng Nghymru wedi cynyddu o gymharu â chyfartaledd y DU, a hynny yn 2010 a 2011.
- bod twf cadarnhaol wedi digwydd yn 2010 a 2011 ym mhob rhanbarth NUTS1 yn y DU. Yn 2011 gwelwyd gostyngiad yn y gyfradd dwf flynyddol ym mhob un o ranbarthau NUTS1 o gymharu â'r gyfradd dwf yn 2010. Gwelwyd gostyngiad mwyaf yn y gyfradd dwf flynyddol yng Nghymru (o 4.1 y cant yn 2010 i 1.9 y cant yn 2011).
- bod GYC y pen yn Llundain ac yn Ne-ddwyrain Lloegr yn uwch na chyfartaledd y DU yn 2011, ond roedd ffigur pob rhanbarth arall yn is na chyfartaledd y DU;
- bod cyfradd dwf flynyddol GYC y pen y DU ar gyfartaledd yn ystod y cyfnod rhwng 1997 a 2011 yn 3.7 y cant. Gwelwyd y gyfradd dwf flynyddol uchaf yn GYC y pen yn Llundain (4.4 y cant), gyda'r Alban a De Ddwyrain Lloegr yn ail (3.9 y cant). Yn ystod y cyfnod hwn, roedd Cymru'n gydradd bedwerydd â Dwyrain Lloegr a Gogledd-orllewin Lloegr o ran y gyfradd dwf flynyddol gyfartalog isaf (3.4 y cant).

[5] **Data Gwerth Ychwanegol Crynswth Rhanbarthol**, gwefan y Swyddfa Ystadegau Gwladol [fel ar 12 Rhagfyr 2012]
[6] Data dros dro yw data 2011. Mae holl ddata'r DU a ddefnyddir yn y papur hwn yn eithrio'r hyn a elwir yn elfen 'y tu allan i'r rhanbarthau': cyfraniadau alltraeth i GYC y DU na ellir eu priodoli i unrhyw ranbarth. Mae rhagor o wybodaeth yn yr atodiad technegol.


## 2. Cymharu GYC - Y mesur canolrifol

Mae'n bosibl cymharu GYC yng Nghymru â rhanbarthau eraill gan roi ystyriaeth i gynnydd neu gwymp cymharol fawr mewn GYC rhanbarth penodol a allai wyro'r mesur cymedrig (y cyfartaledd). Gwneir hyn drwy ddefnyddio'r mesur canolrifol. Mae'r canolrif yn cynrychioli rhif sydd yng nghanol set o rifau. Yn yr achos hwn, y rhif cymedrig yw'r rhif yn y canol rhwng dau rif mynegai ar gyfer ffigur cymharol GYC y DU. GYC y pen yng Nghymru yn 2011 oedd 87.6 y cant o ganolrif y DU.

Mae graff 2.1 yn dangos GYC y pen sy'n seiliedig ar y gweithle yng Nghymru fel canran o ffigur canolrifol a chymedrig GYC y pen yn y DU yn ystod y cyfnod rhwng 1997 a 2011. Mae'r data'n dangos:

- bod y mesur canolrifol wedi codi a gostwng mewn band cymharol gyfyng oddeutu 85 ac 86 y cant rhwng 1997 a 2009, ond ei fod wedi cynyddu yn 2010 a 2011;
- bod y mesur cymedrig wedi gostwng bob blwyddyn rhwng 1997 a 2009, ac eithrio 2002 pan nad oedd unrhyw newid o gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Dim ond yn 2010 a 2011 y gwelwyd y mesur cymedrig yn cynyddu.

**Graff 2.1: GYC y pen, Cymru fel canran o ffigur canolrifol a chymedrig y DU (y DU=100)**





Ffynhonnell: Cyfrifiadau'r Swyddfa Ystadegau Gwladol a'r Gwasanaeth Ymchwil

## 3. Cymharu'r rhanbarthau

Mae Ffigur 3.1 yn dangos GYC y pen sy'n seiliedig ar y gweithle yng nghenhedloedd a rhanbarthau'r DU fel canran o GYC y pen ar gyfer y DU yn 2011. Yn Llundain a De Ddwyrain Lloegr roedd GYC y pen yn 2011 yn uwch na chyfartaledd y DU, tra oedd ffigurau'r holl wledydd datganoledig eraill a rhanbarthau Lloegr yn is na chyfartaledd y DU.


**Graff 3.1: GYC y pen, fesul gwlad a rhanbarth y DU, 2011 Y DU=100**




Ffynhonnell: Y Swyddfa Ystadegau Gwladol

Mae graff 3.2 yn dangos y newidiadau mewn GYC y pen yn seiliedig ar y gweithle yng ngwledydd a rhanbarthau'r DU rhwng 2010 a 2011. Yng Nghymru y gwelwyd y cynnydd mwyaf ond dau mewn GYC y pen, sef 1.9 y cant. Y cynnydd mewn GYC y pen yn y DU gyfan oedd 1.4 y cant.


**Graff 3.2: Newid mewn GYC y pen, fesul gwlad a rhanbarth y DU, 2010 i 2011**




Ffynhonnell: Y Swyddfa Ystadegau Gwladol

# 4. Cymharu Cymru â'r DU

**Graff 4.1: Newid blynyddol yng nghanran GYC y pen yng Nghymru a'r DU, rhwng 1998 a 2011[7]**




Ffynhonnell: Y Swyddfa Ystadegau Gwladol

Mae Ffigur 4.1 yn dangos mai dim ond ar ddau achlysur yn ystod 1997 a 2011 (yn 2010 a 2011) y cafwyd twf uwch yn y gyfradd GYC y pen yng Nghymru o gymharu â'r DU gyfan,. Roedd y bwlch mewn cyfraddau twf rhwng y DU a Chymru yn arbennig o fawr ddiwedd y 1990au, sy'n esbonio'r gostyngiad sylweddol mewn GYC y pen yng Nghymru yn ystod y cyfnod hwnnw o gymharu â'r DU.

---

[7] Gweler GYC a chwyddiant yn yr Atodiad Technegol am bwyntiau i'w hystyried wrth ddehongli data GYC y pen.

## 5. GYC lleol ac is-ranbarthol

**Tabl 5.1: GYC y pen, Cymru, fesul ardal NUTS 1, 2 a 3, 2011 (a)(b)(c)(d) Y DU=100**[8]

| Lefelau NUTS | GYC y pen (£) | Fel canran o GYC y pen y DU (%) |
|---|---|---|
| **Cymru** | 15,696 | 75.2 |
| *Gorllewin Cymru a'r Cymoedd* | 13,573 | 65.0 |
| Ynys Môn | 12,624 | 60.5 |
| Gwynedd | 14,379 | 68.9 |
| Conwy a Sir Ddinbych | 13,116 | 62.8 |
| De Orllewin Cymru | 13,097 | 62.7 |
| Canol y Cymoedd | 12,985 | 62.2 |
| Cymoedd Gwent | 11,626 | 55.7 |
| Pen-y-bont ar Ogwr a Chastell-nedd Port Talbot | 15,440 | 74.0 |
| Abertawe | 15,933 | 76.3 |
| *Dwyrain Cymru* | 19,309 | 92.5 |
| Sir Fynwy a Chasnewydd | 20,355 | 97.5 |
| Caerdydd a Bro Morgannwg | 21,366 | 102.4 |
| Sir y Fflint a Wrecsam | 17,820 | 85.4 |
| Powys | 13,329 | 63.9 |

(a) GYC yn ôl prisiau sylfaenol presennol.
(b) Mae'r amcangyfrifon yn seiliedig ar y gweithle.
(c) Ac eithrio'r eflen tu allan i'r rhanbarthau
(d) Ffigurau dros dro

Ffynhonnell: Y Swyddfa Ystadegau Gwladol

Dylid nodi bod yr amcangyfrifon GYC a gasglwyd ar lefelau NUTS 2 a NUTS 3 yn seiliedig ar y **gweithle** hefyd. Cyfrifir amcangyfrifon GYC y pen NUTS 3 drwy rannu amcangyfrif GYC y gweithle ar gyfer ardal benodol â'r boblogaeth sy'n byw yn yr ardal honno.

Bydd amcangyfrifon GYC y pen **yn uchel mewn ardaloedd lle mae llawer o gymudo i mewn i'r ardal** a lle mae poblogaeth fach yn byw, a bydd **yn isel mewn ardaloedd lle mae llawer o gymudo oddi yno** a lle mae poblogaeth fawr yn byw. Gall newidiadau mewn patrymau cymudo rhwng ardaloedd dros amser arwain at newidiadau mewn GYC y pen mewn ardaloedd NUTS 3 cyfagos.

[8] Categorïau hierarchaidd o ardaloedd gweinyddol yw Enwau Unedau Tiriogaethol at Ddibenion Ystadegaeth (NUTS) a ddefnyddir ledled yr Undeb Ewropeaidd at ddibenion ystadegol. Mae Cymru yn un o 12 ardal NUTS 1 yn y DU ac mae Gorllewin Cymru a'r Cymoedd a Dwyrain Cymru'n ardaloedd NUTS 2.

Ymhellach, gan fod amcangyfrifon GYC yn rhannol seiliedig ar arolygon sampl, mae canlyniadau rhanbarthau llai (NUTS 3) yn llai sicr na chanlyniadau'r rhanbarthau mwy.


**NUTS 2**

Mae amcangyfrifon diweddaraf ardaloedd NUTS 2 Cymru yn dangos:

- mai Gorllewin Cymru a'r Cymoedd a oedd â'r GYC isaf y pen (£13,573) o blith holl ranbarthau NUTS 2 y DU yn 2011. Mae'r ffigur hwn yn cyfateb i 65.0 y cant o gyfartaledd y DU, sef £20,873. Roedd gan Ddwyrain Cymru GYC y pen o £19,309 yn 2011 (92.5 y cant o gyfartaledd y DU);
- bod y ffigurau ar gyfer 2010 a 2011 yn dangos gwelliant mewn GYC y pen yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd o gymharu â chyfartaledd y DU. Fodd bynnag, yn ystod y cyfnod rhwng 1997 a 2011 gwelwyd gostyngiad mewn GYC y pen yn y rhanbarth o 67.2 i 65.0 y cant o gyfartaledd y DU;
- rhwng 1997 a 2011, bod GYC y pen yn Nwyrain Cymru wedi gostwng o 97.6 y cant i 92.5 y cant o gyfartaledd y DU.

Mae graff 5.1 yn dangos GYC y pen ar gyfer y cyfnod rhwng 1997 a 2011 yn rhanbarthau NUTS 1 a 2 Cymru o gymharu â chyfartaledd y DU.

**Graff 5.1: GYC y pen, ardaloedd NUTS 1 a 2 Cymru y DU=100**




Ffynhonnell: Y Swyddfa Ystadegau Gwladol

## NUTS 3

- O'r 12 rhanbarth NUTS 3 yng Nghymru, Caerdydd a Bro Morgannwg a oedd â'r lefel uchaf o GYC y pen yn 2011, sef 102.4 y cant o gyfartaledd y DU. Dyma'r unig ardal NUTS 3 yng Nghymru lle mae GYC y pen yn uwch na chyfartaledd y DU;
- Roedd y lefelau isaf o GYC y pen yng Nghymru yng Nghymoedd Gwent, sef 55.7 y cant o gyfartalaedd y DU ac yn Ynys Môn, sef 60.5 y cant o gyfartaledd y DU. Mae'r ardaloedd hyn yn cyfrif am ddau o'r pum rhanbarth NUTS 3 ledled y DU sydd â'r lefelau isaf o GYC y pen o'i gymharu â chyfartaledd y DU. Yn 2011, Cymoedd Gwent oedd â'r GYC y pen isaf ond un yn y DU;
- Rhwng 1997 a 2011, Ynys Môn, De-orllewin Cymru ac Abertawe oedd yr unig ardaloedd NUTS 3 yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd lle y gwelwyd cynnydd mewn GYC y pen o gymharu â'r DU. Yn ystod yr un cyfnod, dim ond mewn un ardal NUTS 3 yn Nwyrain Cymru (Caerdydd a Bro Morgannwg) y gwelwyd cynnydd mewn GYC y pen o'i gymharu â'r DU;
- Rhwng 1997 a 2011, gwelwyd y gostyngiad mwyaf mewn pwynt canran o'i gymharu â'r DU o holl ardaloedd NUTS 3 Cymru yn Sir y Fflint a Wrecsam (gostyngiad o 99.4 y cant i 85.4 y cant). Roedd y cynnydd mwyaf o ran pwynt carnan yn Ynys Môn (o 49.2 y cant i 60.5 y cant).

## Tabl 5.2: Newid mewn GYC y pen, Cymru, fesul ardal NUTS lefel 3, 1997 – 2011 (a)(b)(c)


**Y DU=100**

| Lefelau NUTS 3 | GYC y pen fel canran o gyfartaledd y DU (1997) | GYC y pen fel canran o gyfartaledd y DU (2011)(d) | Newid mewn pwynt canran (1997 - 2011) |
|---|---|---|---|
| Ynys Môn | 49.2 | 60.5 | 11.3 |
| Gwynedd | 70.0 | 68.9 | -1.1 |
| Conwy a Sir Ddinbych | 66.1 | 62.8 | -3.3 |
| De Orllewin Cymru | 62.3 | 62.7 | 0.4 |
| Canol y Cymoedd | 64.0 | 62.2 | -1.8 |
| Cymoedd Gwent | 60.7 | 55.7 | -5.0 |
| Pen-y-bont ar Ogwr a Chastell-nedd Port Talbot | 82.1 | 74.0 | -8.1 |
| Abertawe | 75.7 | 76.3 | 0.6 |
| | | | |
| Sir Fynwy a Chasnewydd | 99.4 | 97.5 | -1.9 |
| Caerdydd a Bro Morgannwg | 101.5 | 102.4 | 0.9 |
| Sir y Fflint a Wrecsam | 99.4 | 85.4 | -14.0 |
| Powys | 77.4 | 63.9 | -13.5 |

(a) GYC yn ôl prisiau sylfaenol presennol
(b) Mae'r amcangyfrifon yn seiliedig ar y gweithle.
(c) Ac eithrio’r elfen y tu allan i’r rhanbarthau ac anghysondeb ystadegol.
(d) Ffigurau dros dro

Ffynhonnell: Y Swyddfa Ystadegau Gwladol


**Map 5.1: GYC y pen fel <u>canran</u> o GYC y pen yn y DU yn 2011, fesul ardal NUTS 3 (Y DU=100)**




Ffynhonnell: Y Swyddfa Ystadegau Gwladol a'r Gwansanaeth Ymchwil

© Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2012.
Arolwg Ordnans 100047295

**Map 5.2: GYC y pen fel canran o GYC y pen yn y DU: Newid pwyntiau canran rhwng 1997 a 2011, fesul ardaloedd NUTS 3**




Ffynhonnell: Y Swyddfa Ystadegau Gwladol a'r Gwansanaeth Ymchwil

© Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2012. Arolwg Ordnans 100047295

## 6. Atodiad Technegol

Mae Gwerth Ychwanegol Crynswth (GYC) yn mesur cyfraniad pob cynhyrchydd unigol, diwydiant a sector yn y Deyrnas Unedig i'r economi. Gellir cyfrifo'r GYC a gynhyrchir gan unrhyw uned sy'n ymwneud â gweithgarwch cynhyrchu fel yr hyn sydd dros ben o gyfanswm cynnyrch yr uned namyn y treuliant canolraddol (hynny yw y nwyddau a'r gwasanaethau sy'n cael eu defnyddio yn y broses o wneud y cynnyrch), neu fel y swm o incwm ffactorau a gynhyrchir o ganlyniad i'r broses gynhyrchu. Gan ddefnyddio GYC, mae modd hefyd dadansoddi fesul rhanbarth a chymharu cynhyrchiant y rhanbarthau.

Dyma faterion technegol i'w hystyried wrth edrych ar amcangyfrifon GYC:

- **Mae GYC rhanbarthol (NUTS 1) yn cael ei gyfrifo ar hyn o bryd ar sail y gweithle ac ar sail trigolion** - Mae GYC sy'n seiliedig ar drigolion yn dyrannu incwm y rhai sy'n cymudo i'r lle maen nhw'n byw (gwneir hynny oherwydd y data gweinyddol ar sail trigolion sy'n bod eisoes), ond mae GYC sy'n seiliedig ar y gweithle yn dyrannu eu hincwm i'r lle maen nhw'n gweithio. **Mae'r holl ffigurau yn y papur hwn ar gyfer GYC sy'n seiliedig ar y gweithle.**
- **Caiff GYC NUTS 2 a NUTS 3 eu hamcangyfrif ar sail y gweithle** - Mae amcangyfrifon GYC NUTS 3 y pen yn cael eu cyfrifo drwy rannu amcangyfrif GYC yn seiliedig ar y gweithle ar gyfer ardal â'r boblogaeth sy'n byw yn yr ardal honno. Bydd amcangyfrifon GYC y pen yn uchel mewn ardaloedd lle mae lefelau uchel o gymudo i mewn i'r ardal a lle mae poblogaeth fach yn byw (er enghraifft canol Llundain a Chaeredin). Yn yr un modd, bydd amcangyfrifon GYC y pen yn isel mewn ardaloedd â lefelau sylweddol o gymudo oddi yno lle mae poblogaeth fawr yn byw.
- **Gwerth Ychwanegol Crynswth (GYC) a Chynnyrch Mewnwladol Crynswth (CMC)** – Yn System Cyfrifon Ewropeaidd 1995 (ESA95), defnyddir y term GYC i ddynodi amcangyfrifon a arferai gael eu galw'n Gynnyrch Mewnwladol Crynswth (CMC) yn ôl prisiau sylfaenol. Yn ESA95 mae'r term CMC yn dynodi GYC gan gynnwys trethi (namyn cymorthdaliadau) ar gynhyrchion, e.e. yn ôl prisiau'r farchnad. Ar hyn o bryd, cyhoeddir cyfrifon rhanbarthol yn ôl prisiau sylfaenol yn unig, felly cyfeirir at y ffigurau yn awr fel GYC yn hytrach na CMC fel mewn cyhoeddiadau blaenorol.
- **Mesuriadau y Pen** - Mae'r amrywiaeth fawr ym maint rhanbarthau'r DU yn ei gwneud hi'n anodd cymharu perfformiad economaidd y rhanbarthau gan ddefnyddio cyfansymiau arian parod; felly mae cymariaethau fel arfer yn cael eu mynegi drwy gyfeirio at symiau y pen o'r boblogaeth. Fodd bynnag, mae'n bwysig nodi y gall y twf mewn cyfansymiau fod yn wahanol i'r twf y pen mewn rhanbarthau lle mae'r boblogaeth wedi cynyddu neu leihau. Ymhellach, caiff lefel y pen ei benderfynu gan arian parod cyfartalog y boblogaeth sy'n

gweithio a chan y gyfran o'r rhai sy'n dibynnu ar hynny. Yn ddelfrydol dylid felly ystyried strwythur y boblogaeth o ran oed wrth gymharu ffigurau y pen.

- **GYC a Chwyddiant** – Caiff yr holl eitemau mewn cyfrifon rhanbarthol eu mesur gan ddefnyddio prisiau presennol. Golyga hyn fod cynnydd dros amser yn adlewyrchu chwyddiant yn ogystal â thwf gwirioneddol. Nid oes modd dadansoddi tueddiadau o ran cyfanswm GYC y pen yn hawdd heb ddatchwyddo'r data. Fodd bynnag, nid oes mynegeion prisiau rhanbarthol y gellir eu defnyddio i gael gwared ar effaith chwyddiant ar y ffigurau. Felly, mae modd seilio cymhariaeth o dueddiadau naill ai ar y gwahaniaeth rhwng cynnydd rhanbarthol yn ôl prisiau presennol neu ar newid yn y symiau o gymharu â chyfartaledd y DU. Byddai'r ddau ddull yn gamarweiniol pe bai graddfa chwyddiant mewn unrhyw ranbarth yn wahanol i'r cyfartaledd cenedlaethol.
- **Y tu allan i'r rhanbarthau** - Mae cyfraniad GYC llysgenadaethau'r DU dramor a lluoedd y DU sydd wedi eu lleoli dramor yn cynnwys yr elfen y tu allan i'r rhanbarth, ynghyd â'r elfennau sy'n ymwneud â'r gweithgareddau sy'n digwydd ar y sgafell gyfandirol. Gan nad oes modd priodoli'r rhain i ranbarthau penodol maent yn cael eu galw'n "GYC y tu allan i'r rhanbarthau".
- **Cywirdeb** – Mae amcangyfrifon GYC yn rhannol seiliedig ar arolygon sampl ac felly mae ansawdd y canlyniadau yn amrywio yn ôl maint y sampl. Golyga hyn fod canlyniadau'r rhanbarthau llai yn fwy ansicr na chanlyniadau'r rhanbarthau mwy.